
# Glas

Bwletin misol Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd

Rhif 190
Rhagfyr 2023

gan gynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn



Ben Ddelw, Mynydd Tir y Cwmwd, Llanbedrog, 5ed Tachwedd 2023. Yr hen ddelw yn mwynhau Llewyrch yr Arth tra'n edrych i fyny ar yr Aradr.
Greta Hughes

Erthygl ar dudalen 2 a chlawr y cefn


**Cyhoeddir Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd**

Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wicipedia
Cysylltwch â ni trwy **bwletinglas.llennatur@gmail.com**

RHIF ELUSEN Cymdeithas Edward Llwyd 1126027
CYMUNED Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd

# Llywyrch yr Arth, 2010-2023






| Rhif | Lleoliad | Dyddiad | Ffynnonhell | Person | Math |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Alban | 29/02/2011 | T | | |
| 2 | Cumbria | 08/10/2012 | T | | |
| 3 | Trawsfynydd | 27/02/2014 | O | | |
| 4 | Oregon | 17/03/2015 | T | | |
| 5 | Trawsfynydd | 01/03/2015 | O | KOB | |
| 6 | Llanrug | 18/03/2015 | T | | |
| 7 | Gwlad yr Ia | 21/09/2015 | O | | |
| 8 | Gwlad yr Ia | 01/09/2015 | F | AW | |
| 9 | Cork | 20/12/2015 | T | | |
| 10 | Rhydychen | 06/03/2016 | | | |
| 11 | Donegal | 19/02/2021 | | | |
| 12 | Donegal | 20/02/2021 | | | int appearance' |
| 13 | Ceinewydd | 14/01/2022 | | | |
| 14 | LlG | 05/02/2022 | | | |
| 15 | Llanddulas | 21/08/2022 | | | |
| 16 | Wyddfa | 27/08/2022 | | | |
| 17 | Llanfairfechan | 20/10/2022 | | | |
| 18 | Llanfairfechan | 21/10/2022 | | | |
| 19 | Llanbedrog | 26/02/2023 | T | | |
| 20 | Llanbedrog | 23/04/2023 | T | GH | |
| 21 | Llanbedrog | 11/05/2023 | F | GH | |
| 22 | Llanbedrog | 18/09/2023 | F | GH | |
| 23 | Eifl | 06/11/2023 | F | | |
| 24 | Eifl | 06/11/2023 | F | HEC | |

Llewyrch yr Arth yn anhygoel heno, 23ain Ebrill, 2023, o Gae Dan Tŷ, Pengamfa, Llanbedrog. Yr Eifl, Polyn Nebo a goleuadau Pwllheli i'w gweld. **Greta Hughes**


Dyma uchod ar y dde eich cofnodion ym Mhrosiect Llên Natur ers 2010 o'r Aurora Borealis (neu Llewyrch yr Arth, Goleuni'r Gogledd neu'r Awrora). Dangosir y mannau mwyaf deheuol i bob dyddiad gyda sylwadau o Gymru mewn print trwm. Gewch chi leoli y dyddiadau ar y graff os ydych chi eisiau i weld eu perthynas ar smotiau'r haul ar y graff. Mae'r côd i ddangos ymhle mae nhw wedi eu cadw yn y system fel a ganlyn:





**T Tywyddiadur**

**O Oriel**

**F Facebook (Cymuned Llên Natur)**





# Pysgodyn ehedog, yng Nghymru?



Teulu o Aberaeron yn canfod pysgodyn ehedog ar draeth harbwr y Cei Newydd, Aberaeron Tachwedd 2023 (Llun: Oliver Taberner)

Yn ôl basdata yr NBN nid yw'r 'sgodyn yma wedi eu gofnodi yng Nghymru!

**Gweler:** dolen yr NBN

**Ffeiloffeithiau:**

1. Faint o weithiau mae pysgodyn ehedog wedi dod i'r fei yng Nghymru o'r blaen?

Hwn yw'r cofnod cyntaf erioed o bysgodyn ehedog yng Nghymru

2. Ydi hwn yn symptom o gynhesu hinsawdd a'r môr yn cynhesu?

Cafwyd 2 yn nhechrau'r 20fed ganrif Lloegr - Felly efallai newid hinsawdd, efallai ddim

**Gweler ar Cymuned Llên Natur:** y ddolen hon

a Wikipedia: dolen Wikipedia


# Derbyn Glas, bob mis

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!

Llên natur Cysylltwch gyda ni: bwletinglas.llennatur@gmail.com

Bydd darllenwyr Glas wedi sylwi fis diwethaf ein bod ni wedi newid ein system e-bost ar gyfer ei ddosbarthu. Yn fuan bydd pawb wedi arfer gyda'r llythyren G mewn cylch yn eu blwch e-bost. Bydd hyn yn golygu bod pob rhifyn diweddaraf Glas wedi eich cyrraedd gyda gwledd o straeon am fyd natur - mor werthfawr i ni i gyd. **Y tîm**

# Llai o rug ar Fynydd y Grug ers 1992



2 Tachwedd 2023 - **Y gwyrdd golau** *(saeth)* **yn arbennig o blaen heddiw o Lôn Droliau, Waunfawr. Tân mawn dwfn yn 1992 oedd yn gyfrifol. Cyn hynny roedd o i gyd yn rug tywyll. Wnaeth o erioed ddod at ei hun.**



## Dyma'r cofnod ohono yn y Tywyddiadur

30/12/1992
**Lle**: Waunfawr
**Ffynhonnell**: DB
**Nodiadau**: Tân mawr 2300 ar dîn y Mynydd Mawr yn cael ei chwipio gan y gwynt ac yn goleuo'r awyr am gyfnod..

**(Mynydd y Grug mae pobl Dyffryn Nantlle yn ei alw. Mynyddfor (yn cael ei gwtogi i 'Nyddfor) oedd hen bobl Waunfawr yn ei alw. Mynydd Eliffant gan lawer erbyn hyn – neu 'Reliffant!)**

Trist iawn. Meddwl fod grug yn ail dyfu ar ôl cael ei losgi. Mae'n amlwg fod y tân yma wedi llosgi'r gwreiddiau yn llwyr. **Margaret Roberts**

Llosgi a phori ers canrifoedd oedd yr hen drefn, ond ers yr 80au mae hyn wedi cael ei wahardd. Yn ystod yr amser yma dwi wedi sylwi ar y dirywiad mwyaf yn ein bywyd gwyllt mynyddig. Tân bach yn aml yn well na tân mawr sydd yn llosgi popeth. Mae'r mynyddoedd yn mynd yn anialwch i fywyd gwyllt ac anifeiliaid fferm. Maent yn llawn trogod a hefyd mae tân mawr yn debygol o ddigwydd eto. **Kevin Davies**

Ia wir. Tân bwriadol dan reolaeth gan losgwyr profiadol sydd wedi cynnal rhosdiroedd ers y Neolithig. Tân mawr poeth a dwfn oedd hwn ar drugaredd y gwynt oedd yn llawer rhy gryf a heb ffrwyn arno gan na wal na chlogwyn. Mae'n rhaid gofyn y cwestiwn, ydi'r sgiliau o losgi i gael clytwaith o rug isel bwytadwy a chymharol faethlon ar yn ail efo grug tal cysgodol, wedi eu colli? **Golygydd**

Os na fydd *fire belts* ar y mynydd does dim pwynt cwyno a dyfaru, mae'r llanast wedi ei wneud pan fydd tân mawr yn lledaenu. Mae cadwraeth i fod hefo trefn a systemau gweithiol. Mae rhanau o Fynydd Grug/Mawr hefo grug trwchus coediog tuag at 'Foty Cwm Du yn terfynu ar goedwig uwchben Betws Garmon. Beth yw'r drefn cadwraeth os basa hwnnw yn mynd ar dân? 'Barn bersonol fi yw: rhaid cael rhywfaint o'r ddau, grug mewn cadwraeth ond bod rhaid rhanu i wahanol flociau hefo *fire belts* rhyngddynt er mwyn peidio a dinistro gormod o arwynebedd.

**David John Williams**

Cytuno - dyna beth mae cadwriaethwyr yn ceisio ei wneud lle mae'r adnoddau a'r hawliau ganddyn nhw. **Golygydd**

Mae *impact* y math yma o dân ar lusdyfiant fu yno ers canrifoedd (o leiaf) yn fwy na cholli ychydig ddegau o erwau o rug. Dyma rai o rywogaethau (o dop fy mhen) sydd yn ddibynnol ar rug:

- Gwyfyn ymerawdr
- Cwlwm cariad
- Cwtiad aur
- Grugiar
- Grugiar ddu
- Wylun y gogledd
- Boda tinwen
- Llus ('dirprwy' i'r grug)
- Cog (hy. cogau'r corhedydd)
- Corhedydd y waun
- Ehedydd




Mae yna dros 20 o lindys gwyfyn a glöyn sy'n bwyta grug wedi eu rhestru yn Carter & Hargreaves (1986)

Gweiriach a brwyniach gwydn isel fel peiswellt y defaid *Festuca ovina* a brwyn troellgoryn *Juncus squarrosus* mae'n debyg yw'r 'gwyrdd golau' heddiw yn y llun - llawer tlotach ei botensial i fywyd gwyllt. Wrth gwrs mae ffactorau eraill fel troedio gan bobl, pwysau pori, uchder uwchben y môr, datguddiad i wynt a glaw hefyd yn dylanwadu ar y potensial hwn. **Golygydd**

## Croeso i chi gerddwyr mynydd fireinio ar yr asesiad hon trwy edrych â'ch llygaid eich hun

# Adnabod yr adar: rhydyddion




Llun Alun Williams

## Rhith-effeithiau natur (...parhad)



Ar dudalen 7 o rifyn 188 o Glas mi welsom enghraifft o natur (pluen Essex Havard) yn 'efelychu' celf trwy ei chymharu â phaentiad haniaethol gan yr artist Briget Riley (Gweler rhaglen BBC4). Dyma enghraifft arall o Lanfrothen gan Llinos Griffin: 'llif y glaw yn rhedeg i lawr y llwybr ond hwn yn troelli yn ei unfan' meddai Llinos. Diferion mân ar ddiferyn mwy efallai?

## Y byd adaryddol yn newid



**Tri o** crehyrod y gwartheg **yn Port** [Porthmadog] **heddiw** (19/10/2023).

### ...a'r Traeth Mawr ar flaen y gad

Nes i 'rioed ddychmygu y buaswn yn gweld tri math o grëyr gwyn *(egrets)* yma ar yr un diwrnod. Mi roedd na un crëyr mawr gwyn yma hefyd a dwsinau o grëyrod bach gwyn. **Elfyn Lewis**

Elfyn, nes i rioed ddychmygu y buaswn yn gweld llond cae o crehyrod y gwartheg yn rhannu porfa gyda gwartheg yn Llydaw (Baod, 30 Hydref 2023). Dyma'r tro cyntaf erioed i mi weld y math yna o aderyn - 'dwi'n 61 oed! Diolch i Gaetan Duval am fy niweddaru am yr aderyn hwn. **Dominig Kervegant**

Aderyn a rhywogaeth o adar yw Crëyr gwartheg. Mae'r crëyr gwartheg yn perthyn i deulu'r Crehyrod (Lladin: Ardeidae). Mae'n cael ei adnabod hefyd gyda'i enw gwyddonol *Bubulcus ibis* (Llyd: *Bugerc'heiz*, S.: *Cattle egret* a Ffr.: *héron garde-bœufs/pique-bœufs*.


Mae'n perthyn i deulu'r Crehyrod (Lladin: *Ardeidae*) sydd yn urdd y Ciconiformes. Mae'r rhywogaeth hon i'w chanfod yng Ngogledd America, Asia, Ewrop [Prydain/Cymru] ac Affrica. Gwybodaeth o Wici Cymraeg. **Angen ei diweddaru gan Wicipediwr. Gwirfoddolwr!?**

## Newydd i Brydain yn 2007

Fuasai unrhyw un mor garedig a rhoi enw i mi ar y creadur bach yma? Ei hyd bron i fodfedd. Lleoliad: Llanfairfechan. **Aled Williams**

*Leptoglossus occidentalis* (Gweler ap Seek) **Golygydd**

Tarianbryf had conwydd gorllewinol - mewnfudwr o America - Darllennwch fwy.



Yn fuan wedi i mi dynnu'r llun o'r tarianbryf, diflannodd yn sydyn. Ymhen oriau wedyn pan oeddwn yn y tŷ yn newid i fynd allan hefo'r Côr, glaniodd y creadur (neu un cyffelyb) ar fy nghlin! Hedfan drwy'r ffenestr fu ei hanes wedyn. **AW**


## Dal yn dymhorol...

**Capiau cŵyr, Parc Coed Helen, Caernarfon.**

25 Tachwedd 2023 **Gillian Brown**




# Storm Ciaran yn Llydaw










Mae'r map uchod yn dangos rhagolygon tywydd Météo France ar gyfer storm Ciaran a drawodd Llydaw noson 1-2 Tachwedd 2023. Roeddwn i'n aros efo teulu yn Plañvour, ger an Oriant. Mae pawb yn cofio storm 1987 yno a'i chanlyniad brawychus pryd hynny, yn union fel yn ne Lloegr. Y storm oedd i fod i gyrraedd Llydaw oedd y testun sgwrs yn amlwg. Ges i gyfle i fwydo'r sgyrsiau drwy enwi'r hen Michael Fish, cyflwynydd tywydd y BBC, a fethodd rybuddio gwylwyr teledu o'r corwynt noson y 15ed Hydref 1987. Mae'n rhaid dweud bod yr oes wedi newid ac roedd rhagolygon Météo France ar y noson hon yn hollol gywir.

Roedd y sgyrsiau rhyngof a'n nghenfder Hervé, cyn mynd i gysgu, yn eithaf ysgafn i ddweud y gwir - roedden ni'n meddwl nad oedd angen poeni'n ormodol chwaith. Mi wnes i, a'r plant bach yn y tŷ, yn cysgu fel tyrchod! - clywsom ddim byd! Ar y llaw arall roedd fy nghefnder a'i wraig Christine wedi dychryn, doedden nhw ddim wedi cysgu o gwbl.

Y peth cyntaf, cyn codi, a darodd fy meddwl oedd derbyn neges ffôn 'personol' gan Rhaglawiaeth *(Préfecture)* ardal Mor-Bihan. A'r peth nesaf oedd, wrth gwrs, y cynwrf yn llais Hervé!

Doedd pobl ddim i fod i yrru o gwbl [gweler y neges uchod ar gyfer gyrwyr loriau]; serch hynny, er gwaethaf y rhybuddion, ni fu'n drafferth i fy nghyfnither Hélène mynd am dro o gwmpas an Oriant, a chael cyfle unigryw i weld y difrod [gweler lluniau o ardal an Oriant ar dudalen 5.

Mi wnaeth y teulu lwyddo i ddarparu pryd heb drydan! Mi wnes i ffarwelio â nhw ond roedd gen i dasg bwysig i wneud ar adeg bwysig sef dathlu gwyl teuluol yr Hollsaint, gŵyl y meirwon. Y dasg oedd mynd o gwmpas beddi'r teulu ac achub y blodau rhag y storm. Roeddent wedi eu gosod ar gyfer yr ŵyl ychydig ddyddiau ynghynt. Wrth lwc nid oedd llawer o niwed yno. Y peth mwyaf amlwg wrth i mi groesi Llydaw o'r de i'r gogledd oedd gweld y coed oedd wedi eu torri yn y bore hwnnw.


Mi gafodd storm Ciaran sylw mawr y diwrnod wedyn. Roedd golygydd papur Ouest-France yn crybwyll gwynt o 207 kma yn Beg-ar-Raz a'r ffaith bod 1.2 miliwn o aelwydydd heb drydan gan ddisgrifio'r hyn oedd newydd ddigwydd fel "bom tywydd". Ei brif gonsyrn serch hynny oedd *"Annus horibilis"* y cwmniau yswiriant...


Mae taro golwg ar bapur Ouest-France ardal Sant-Brieg a Lambal yn cadarnhau yr hyn oedd rhagolygon Météo France yn dweud am orllewin a gogledd Llydaw a dyma ychydig o bwyntiau sy'n dangos beth a wynebodd Llydaw, a sut bu rhaid i'r awdurdodau fynd i'r afael â'r argyfwng y bore hwnnw:

- Tonnau â chribau 21 metr a chafnau rhwng 10 a 12 metr ar y môr - dim damwain y noson honno wrth lwc. Roedd perchnogion cychod wedi dilyn rhybuddion yn ofalus.
- Yr ail storm fwyaf ar ôl storm 1987 yn Llydaw.
- Pryder mawr trwy'r nos yn Penn-ar-Bed, gorllewin Llydaw - gwyntoedd cryfion yn cyrraedd 170 kma mewn mannau.
- Cyflafan coed ar y ffyrdd - y coed mwyaf bregys wedi mynd. Pobl yn meddwl plannu rhywogaethau mwy cadarn ar gyfer y dyfodol: y dderwen fythwyrdd, <u>*Quercus ilex*</u> er enghraifft..
- Ras yn erbyn amser i wasanaethau argyfwng: brigadau tân a chwmniau trydan yn ynwedig. Y gwasanaeth trên, cwmniau bysys a'r meysydd awyr hefyd.
- Wrth lwc ni fu gormod o ddifrod ar ynysoedd Llydaw.


Nid wyf yn deall sut y cysgais mor dda yng nghanol yr hyn oedd yn digwydd o'n ngwmpas. Ni fu'r noson honno yn wahanol i noson yr 15 o Hydref 1987 i mi - doeddwn i ddim yn byw yn Llydaw pryd hynny. Jest deffro gyda newyddion trychinebus y bore wedyn.

**Dominig Kervegant**



# Cyfres o luniau am storm Ciaran yn Llydaw




## Dyma ychydig o luniau storm Ciaran yn Llydaw




**Teulu Lana wedi colli coeden cnau Ffrengig *(noyer)*. Roedd yn golled i'r teulu cyfan yn syth ar ôl y cyneuaf olaf - Sant-Brieg.**


2 Tachwedd 2023




**Papur Ouest-France diwrnod y storm**



**Y ffyrdd gwledig yn fudr ar ôl y clirio mawr. Ambell un yn dal wedi cau - plwy' Persken**



**Cylchfan newydd ei ailagor ar ôl y storm - tref Ploue, ardal Mor-Bihan.**

CYMUNED Llên natur Cymdeithas Edward Llwyd





**Coeden binwydd fawr gyferbyn â Lise Colbert (ysgol uwchradd)**

**Coed wedi cwympo wrth ymyl adeiladau gweinyddol yn an Oriant.**

# Uffan dân!

## A phawb yn sbio ar eu ffonau…


GULP OF THE WEEK
"The other day, in London, I saw a peregrine falcon swoop over Waitrose, and everyone else around me was staring down at their mobile phones."
Hamza Yassin

**Hyn mor wir yn tydi ? ( Daily Mirror 15/11/23) Derec Owen**

Mor od gweld hwn rwan ...welish i gudyll coch yn Port diwrnod o' blaen 'fyd a dw i'm yn meddwl sylwodd neb arall. Ond o leia felly bod pobl yn gadael llonydd iddyn nhw am wn i! **Llinos Griffin**

Ia, mae hyn yn gwestiwn yndydi? Roedd llawer ohonom ni blant yn y 50au yn casglu wyau adar. Prin bod plant heddiw yn gwybod be ydi wy na nyth aderyn. Pa un ydi'r gorau - ein harferion gweddol ddiniwed ni stalwm, 'ta difaterwch llwyr am beth sydd yn mynd ymlaen o'n cwmpas heddiw. O'm rhan i, mi dyfodd fy nhipyn casgliad wyau i fod yn ddiddordeb oes creadigol (gobeithio)… **Golygydd**

Mi oedd Dad yn gwneud yr un fath yn blentyn efo wyau ac mi oedd gynno fo lyfr hel plu oedd o'n ffindio. Fo sydd wedi dysgu bob dim a rhoi niddordeb i i mi 'fyd. Felly mae'n drist hefyd ella na dydi plant ddim am gael diddordeb mewn byd natur gan nad ydi eu rhieni nhw efo diddordeb chwaith. Dwn im sut mae pethau mewn ysgolion dyddiau yma chwaith o ran natur sydd wirioneddol o'n cwmpas 'lly, a ddim jyst mewn llyfrau? Mi oeddan ni'n mynd â phethau oeddan ni'n eu gweld/dod o hyd iddyn nhw i mewn i'r ysgol. Nythod wedi disgyn ac mi esh i a ffwlbart wedi marw rhyw dro


Llun: David Lister (Cymuned Llen Natur)

hefyd. Mi ffindish i o ar ochr lôn...Trist go iawn ydi bod pobl ddim isio gwbod. **LIG**

Mi oedd yr un peth yn digwydd yn yr Henblas, Llangristiolus. Fe 'roeddem (rhai ohonom) yn mynd â rhyw anifail neu aderyn a oedd wedi marw i'r ysgol ac yna cael trin a thrafod efo'r Prifathro, y diweddar TG Walker. 'Radeg honno y tanwyd y diddordeb mewn natur i mi. **DO**

# Clacwydd? - hen declyn arall



**Hen declyn arall diddorol heb enw , dim syniad i beth oedd yn dda chwaith.**

**Gw'bod neith rhai ohonoch 'i nabod yn syth.**

Clagwydd fydd fy mhartner yn ei alw. Ei ddefnyddio i lanhau gwaelod traen. Bydd yn cael *outing* yn eitha aml (Pen Llŷn). **Meira Jones**

Cytuno - i lanhau hen 'beips' clai - "drain scoop"! **Fiona Jones**

Fel sydd eisoes wedi ei grybwyll, teclyn i lanhau gwaelod draeniau cyn gosod pibelli. **Huw Alun Roberts**

Clirio allan hen gwt i'n Nhad sy'n gollwng tu allan ma. Atgyweirio ac adeiladu oedd gwaith yn Nhad, bydde'n amal yn tyllu i 'neud draeniau efo caib a rhaw, hefyd yn Nhaid yma cynt yn dyddynwr bach. **Nest Vaughan Evans**


Llun: Arfon Jones

Clagwydd i lanhau gwaelod draen cyn rhoi peipiau ynddi. Roedd yna un math arall hefyd fyddai yn cael ei ddefnyddio i ollwng peipiau clai i mewn i'r draen i arbed i'r sawl fyddai yn ei gosod fynd mewn iddi. **Alan Parry Jones**

# Teithiau Cymdeithas Edward llwyd

**Y wefan a'r tudalen Facebook - un o brif weithgareddau'r Gymdeithas yw'r rhaglen gynhwysfawr o deithiau maes a gynhelir bron pob dydd Sadwrn mewn tri rhanbarth drwy Gymru: Gogledd Dwyrain, Gwynedd a Môn, y De a'r Canolbarth.**




# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

I gloi, yn y flwyddyn sydd wedi torri sawl record byd eang (gweler adroddiad y Cenhedloedd Unedig), dyma flwyddyn orau am yr awrora borealis gafwyd ers sawl blwyddyn, os nad erioed.



Llewyrch yr Arth i'w weld am ychydig o Lanbedrog cyn i'r cymylau ddychwelyd, 4ydd Tachwedd 2023. **Greta Hughes**



5 Tachwedd 2023 - Penmaenmawr. **Iona Wyn Hall**



18 Medi 2023. **Greta Hughes**



6 Tachwedd 2023 - Yn ardal Rhandirmwyn, Sir Gâr. **Twm Sion Cati**



Llewyrch yr Arth o Ben Ddelw - Llanbedrog, 5 Tachwedd 2023. **Greta Hughes**



Pileri'n llawer mwy amlwg yn ymestyn i'r Dwyrain bron uwchben Pwllheli. 24 Ebrill 2023. **Greta Hughes**